



2 Medi 2019

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD  
AROLYGAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI  
MAWRHYDI**

*THE POOR RELATION: The Police and CPS Response to Crimes Against Older People*

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, sy'n ymdrin â'r ymateb i droseddau yn erbyn pobl hŷn. Nid yw pob person hŷn yn agored i niwed, fel y nodir yn yr adroddiad, ond mae'n amlwg bod angen ymateb plismona arnynt sy'n addas i'w hanghenion.

Ym mis Mai eleni, rhoddais fy ymateb i adroddiad Arolygaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi 'Amser i Ddewis: Archwilio Ymateb yr Heddlu i Dwyll'. Mae cysylltiadau amlwg rhwng yr adroddiad hwnnw a'r adroddiad hwn, o ran bod pobl hŷn yn aml yn dargedau ar gyfer twyll a sgamiau. Ers llunio'r adroddiad twyll, rwyf wedi bod yn pryderu fwyfwy ynglŷn â statws 'Action Fraud', gan ei bod yn amlwg bod angen gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Byddwn yn annog y dylid cymryd camau i ymchwilio i 'Action Fraud' ynghyd â gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. O ganlyniad, gall ddiodefwrwr twyll (a fydd yn cynnwys pobl hŷn mewn sawl achos), fod yn fwy hyderus y cânt wasanaeth a chanlyniad cadarnhaol os byddant yn profi'r drosedd hon.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig nifer o argymhellion, rhai ohonynt ar gyfer Prif Gwnstabiliaid. Rwy'n croesawu'r argymhellion hyn ac yn awyddus i weld cynllun gweithredu ar gyfer yr argymhellion i Wasanaeth Erlyn y Goron, i'r Coleg Plismona ac i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Rwy'n cytuno ag argymhelliad yr adroddiad i gael diffiniad syml ar y cyd o'r hyn a olygir wrth ddiodefwrwr hŷn. Pe bai'r holl heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhannu'r un diffiniad, gall arwain at well canlyniadau a mwy o eglurder o ran sut i wella'r gwasanaethau – ond mae'n rhaid cael y diffiniad cywir.

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



Rwy'n croesawu'r argymhelliad i Brif Gwnstabiliaid sicrhau y caiff asesiadau o anghenion dioddefwyr eu cwblhau bob amser. Mae camau gweithredu eisoes ar waith rhwng fy nhîm i a thîm y Prif Gwnstabl yn Ne Cymru i ystyried ffyrdd o wella'r broses bresennol.

O ran yr argymhelliad y dylai Prif Gwnstabiliaid adolygu p'un a oes modd darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr mewn ffordd well, gallaf gadarnhau fy mod wedi comisiynu Asesiad o Anghenion Dioddefwyr yn gynharach eleni, a ddarparodd adroddiad cynhwysfawr ar y gwasanaethau a dderbynnir gan ddioddefwyr troseddau yn Ne Cymru ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r asesiad, rwy'n gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i roi ystyriaeth fanwl i wasanaethau dioddefwyr. Mae hyn wedi cynnwys grŵp gorchwyl a gorffen gan ymgorffori'r asiantaethau partner i edrych ar faterion diogelu ac argaeledd gwasanaethau i bobl hŷn yn yr ardal. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at argymhelliad y Prif Gwnstabl yn yr adroddiad hwn i gynnal dadansoddiad o fylchau o ran gofynion diogelu oedolion.

Mae'r Prif Gwnstabl yn gefnogol o ganfyddiadau'r adroddiad a dywedodd y canlynol fel ymateb iddo:

*'Gall bod yn ddioddefwr twyll gael effaith aruthrol ar fywydau pobl ac mae Heddlu De Cymru'n gweithio'n galed er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n dioddef trosedd a chefnogi'r rhai y mae hyn yn effeithio arnynt. Mae'r troseddwyr hynny sy'n targedu pobl hŷn a'r rhai sy'n agored i niwed fel arall yn arbennig o ladradaidd; mae mynd i'r afael â'r troseddau hyn yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru. Rydym wedi cyflwyno pecyn hyfforddi i'r holl swyddogion er mwyn eu helpu i weld arwyddion troseddau yn well megis twyll a bwrgleriaeth drwy dynnu sylw, sy'n targedu pobl hŷn a diogelu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu twyllo eto. At hynny, rydym hefyd wedi recriwtio swyddogion i rolau penodol er mwyn atal twyll rhag digwydd ar-lein.'*

*Rydym yn croesawu'r Arolygiad ar y modd y caiff dioddefwyr troseddau hŷn eu trin gan yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron a byddwn yn adolygu'r canfyddiadau i weld lle y gellir gwneud gwelliannau i ddarparu'r lefel orau o wasanaeth a diogelu aelodau hŷn ein cymdeithas. Ni all diogelu pobl hŷn fyth fod yn fater i'r heddlu yn unig ac rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o bartneriaid ac asiantaethau gwahanol er mwyn gwneud hynny.'*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



Byddaf i a'r Prif Gwnstabl yn lansio ein Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd ar gyfer 2019-2022 cyn bo hir. Bydd hyn yn cynnwys nifer o feysydd amlwg i'w datblygu er mwyn gwella'r amcanion cydraddoldeb rydym wedi ymrwymo iddynt ar y cyd dros y tair blynedd nesaf.

Un o'n hamcanion ar y cyd yw gwneud y canlynol:

***Gweithio i atal pobl hŷn rhag dod yn ddiodefwrwr troseddau a sicrhau bod y gwasanaeth a gânt yn hygyrch ac yn briodol i'w hanghenion penodol.***

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflwyno fel ymateb i angen Heddlu De Cymru i ddeall anghenion pobl hŷn sy'n ddiodefwrwr troseddau yn well ac i weithio i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt yn well. Byddaf yn sicrhau fy mod yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion yn adroddiad 'The Poor Relation' wrth i mi ddwyn yr heddlu i gyfrif am gyflawni amcan cydraddoldeb pobl hŷn.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English